Dathlu'r Gymraeg
www.dathlu.org

Hendre
4 Pantbach
Pentyrch
Caerdydd
CF15 9TG

Ffôn: 029 20890040

cadeirydd@dathlu.org

6 Ionawr 2016

**Tystiolaeth i Bwyllgor Cyllid Cynulliad Cenedlaethol Cymru**

**Ionawr 2016**

Mae Dathlu'r Gymraeg yn bryderus iawn ac yn siomedig am y modd y cyhoeddwyd toriadau sylweddol yng nghyllideb Yr Iaith Gymraeg.

Mae'r gyllideb drafft yn dangos cwymp sylweddol yn yr arian ar gyfer gwaith y Llywodraeth yn hybu'r Gymraeg yn y Gymuned ac ar gyfer Comisiynydd y Gymraeg. Mae'n dangos cwymp yn y gyllideb o £8.6m i £6.9m. Mae hyn yn doriad arfaethedig o 19% i'r gyllideb ar gyfer prosiectau i hyrwyddo'r Gymraeg. Deallwn fod bwriad i leihau'r effaith drwy neilltuo £1.2m yn 2016-17 o gronfeydd eraill ond nid yw hyn yn eglur yn y gyllideb drafft ei hun ac nid oes unrhyw sicrwydd am y dyfodol.

Byddai lleihad yng nghyllideb yr Iaith Gymraeg yn cael effaith niweidiol dros ben ar y gwaith sy'n cael ei wneud i hybu'r Gymraeg ac yn rhoi nifer mawr o swyddi mewn perygl.

Ers cyhoeddi'r Gyllideb Drafft mae'r Prif Weinidog wedi cyhoeddi dyraniad grant i nifer o fudiadau. Er bod y rhan fwyaf yn parhau ar yr un lefel mae'n siom fod cyllideb Mentrau Iaith Cymru wedi ei dorri yn sylweddol dim ond blwyddyn ar ôl i'r buddsoddiad newydd gychwyn.

Mae Comisiynydd y Gymraeg yn wynebu toriadau pellach o 10% ar ben yr 8% y flwyddyn ddiwethaf. Mae hyn mewn cyfnod pwysig iawn pan fod angen rhoi cyhoeddusrwydd i'r Safonau newydd a sicrhau eu bod yn cael ei gweithredu. Mae angen i holl adrannau'r Llywodraeth ystyried clustnodi cyllid ar gyfer sicrhau fod y Safonau yn cael eu gweithredu yn gywir a bod yr holl wasanaethau a ddarperir gan Lywodraeth Cymru a'i asiantaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Hefyd mae toriadau sylweddol o 10.6% i gyllideb Cyngor Llyfrau Cymru bydd yn cael effaith ar gynhyrchu llyfrau Cymraeg.

Er bod pwysau cynyddol i dorri cyllidebau credwn fod achos teg wedi ei wneud i barhau i ariannu'r Iaith Gymraeg ar y lefel bresennol a bod lle i weld sut all adrannau eraill y Llywodraeth gyfrannu at y gwaith er mwyn cynyddu'r gefnogaeth.

Mae Dathlu'r Gymraeg o'r farn fod angen mabwysiadu targed hir dymor ar gyfer buddsoddi yn y Gymraeg. Mae maniffesto Dathlu'r Gymraeg ar gyfer etholiadau'r Cynulliad yn gofyn i'r pleidiau gynllunio buddsoddi 1% o gyllideb Cymru mewn mentrau i hybu'r Gymraeg, yr un canran â Gwlad y Basg lle bu twf cyson yn nifer y siaradwyr Basgeg dros y degawdau diwethaf.

**Cefndir a chefnogaeth i Dathlu'r Gymraeg**

Mae 23 o fudiadau sy'n cynrychioli y rhan fwyaf o siaradwyr Cymraeg yn rhan o Dathlu'r Gymraeg – CAER, Cronfa Glyndwr, Cwlwm Cyhoeddwyr Cymru, CYDAG, Cyfeillion y Ddaear, Cymdeithas Alawon Gwerin, Cymdeithas Bob Owen, Cymdeithas Cerdd Dant Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Cymdeithas y Cymod, Cymdeithas yr Iaith Gymraeg, Eglwys Bresbyteraidd Cymru, Eisteddfod Genedlaethol Cymru, Merched y Wawr, Mentrau Iaith Cymru, Mudiad Meithrin, RhAG, UAC, UCAC, UMCA, UMCB, Urdd Gobaith Cymru.

Ein nod yw Sicrhau bod pawb yng Nghymru yn cael defnyddio'r Gymraeg
Diogelu'r Gymraeg fel iaith gymunedol.
Neilltuo adnoddau ychwanegol i sicrhau ffyniant yr iaith Gymraeg.
Creu 'Cynlluniau Gweithredol' ar gyfer Strategaeth Iaith Fyw : Iaith Byw.
Gwireddu'r cerrig milltir yn y Strategaeth Addysg Cyfrwng Cymraeg.
Sicrhau dyfodol llewyrchus ac annibynnol i S4C.

**Ein dymuniad i fod yn hyderus am ddyfodol y Gymraeg**

Mae angen cynyddu gwariant a'r ddarpariaeth ar y Gymraeg

*Rydym yn galw ar y Llywodraeth i gynyddu'r gwariant ar brosiectau penodol Cymraeg, dros amser, i 1% o'r gyllideb sef tua £140 miliwn yn y flwyddyn 2016/17*

Daw rhan o'r gwariant yma drwy arallgyfeirio gwariant presennol. Hefyd galwn ar y Cynghorau Sir a chyrff statudol eraill i sicrhau fod eu holl wasanaethau ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae angen sicrhau fod tegwch i'r iaith Gymraeg wrth gyflawni holl weithgareddau a gwasanaethau'r Llywodraeth.

Yr eiddoch

Penri Williams

Cadeirydd
Dathlu'r Gymraeg